Gwobr Ian McKellen Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth - Termau ac Amodau Llawn 2019

1. Mae'r Wobr yn agored i unrhyw berson ifanc rhwng 16 - 25 oed sy'n bwriadu parhau ei hyfforddiant gyrfäol yn y celfyddydau creadigol - yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, theatr, dawns a'r celfyddydau gweledol.
2. Anelir y Wobr at bobl ifanc rhwng 16 - 25 oed sy'n dangos addewid artistig ac angerdd tuag at eu ffurf gelf, ac sydd â lle i astudio yn ystod y flwyddyn academaidd ganlynol.
3. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais i Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth erbyn 31 Gorffennaf 2019 yn defnyddio'r ffurflen gais swyddogol.
4. Gofynnir i ymgeiswyr fynychu cyfweliad byr i drafod eu cais yn ystod Awst 2019.
5. Bydd y Panel Dyfarnu yn cyfarfod i benderfynu ar yr ymgeiswyr llwyddiannus ym mis Awst 2019; mae penderfyniad y Panel Dyfarnu yn derfynol.
6. Gwerth y Wobr yw £500. Gall y Panel ddewis cynnig y swm llawn i un ymgeisydd, neu ei rannu rhwng dau ymgeisydd llwyddiannus. Mae'r Wobr am un flwyddyn yn unig. Gwneir y taliad yn uniongyrchol i mewn i gyfrif banc y derbynnydd.
7. Mae un Wobr ar gael ar gyfer ymgeiswyr 2019.
8. Disgwylir i enillydd yr Ysgoloriaeth gyflwyno adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn astudio yn dynodi sut y mae'r cwrs wedi bod o fudd iddo/iddi. Byddai Canolfan y Celfyddydau yn awyddus i gadw mewn cysylltiad yn ystod y cyfnod astudio a thu hwnt, ac i gynnig cefnogaeth fentora yn y dyfodol pe byddai hynny o fudd i'r unigolyn.
9. Os na chydymffurfir â'r gofynion uchod, tynnir y Wobr yn ôl.